

## Hysbysiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â Diogelu

Mae Rheoliad 31 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol fel a ganlyn;

*Rhaid i berson cofrestredig hysbysu'r swyddfa briodol pe digwydd unrhyw un o'r digwyddiadau a bennir yn Atodlen 4, a rhaid iddo, yr un pryd, ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen honno mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw.*

Mae'r tabl isod yn nodi'r gofynion hysbysu o dan Atodlen 4 sy'n ymwneud â gwybodaeth am ddiogelu (paragraffau 8, 9, a 10) ac yn rhoi rhai enghreifftiau o'r hyn y dylid adrodd arno o dan bob paragraff. **Nid yw hon yn rhestr gyflawn**, gan na fyddai'n bosibl rhestru'r holl senarios posibl. Cyfrifoldeb y person cofrestredig yw penderfynu p'un a oes angen hysbysiad. Os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech hysbysu AGC, cysylltwch â ni ar 0300 790 0126 neu defnyddiwch [ein ffurflen ymholiad](#).

8. Unrhyw honiadau o niwed difrifol i blentyn a gyflawnwyd gan unrhyw berson sy'n gofalu am blant yn y fangre, neu gan unrhyw berson sy'n byw, yn gweithio neu'n cael ei gyflogi yn y fangre, neu unrhyw gam-drin yr honnir ei fod wedi digwydd yn y fangre.

- Honiad o niwed neu gamdriniaeth a wneir yn erbyn aelod o staff sy'n gofalu am blant yn y lleoliad (gan gynnwys chi eich hun os ydych yn Berson Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Warchodwr Plant).
- Honiad o niwed neu gamdriniaeth a wneir yn erbyn unrhyw berson arall sy'n byw, yn gweithio neu'n cael ei gyflogi yn y lleoliad e.e. cogydd, glanhawr, staff gweinyddol, aelod o'r cartref (ar gyfer Gwarchodwyr Plant).

9. Unrhyw ddigwyddiad arall a allai effeithio ar addasrwydd y person cofrestredig i ofalu am blant neu addasrwydd unrhyw berson sy'n byw, yn gweithio neu'n cael ei gyflogi yn y fangre i fod mewn cysylltiad rheolaidd â phlant.

- Cael eich arestio neu eich cyhuddo mewn perthynas ag unrhyw drosedd neu dderbyn rhybudd neu euogfarn e.e. yfed a gyrru.
- Plant y person ei hun, neu blant y mae'n eu maethu yn cael eu tynnu/eu gosod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, neu'n destun unrhyw fath o ymchwiliad amddiffyn plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Honiad o niwed neu gamdriniaeth a wneir yn erbyn unrhyw berson arall sy'n byw, yn gweithio neu'n cael ei gyflogi yn y lleoliad e.e. cogydd, glanhawr, staff gweinyddol, aelod o'r cartref (ar gyfer Gwarchodwyr Plant) yr honnir iddo ddigwydd i ffwrdd o safle'r lleoliad gofal plant.

10. Unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol arall sy'n debygol o effeithio ar lesiant unrhyw blentyn yn y fangre.

- Marc anesboniadwy ar blentyn y mae aelod o staff y lleoliad wedi sylwi arno.
- Datgeliad a wneir gan blentyn yn y lleoliad am rywun nad yw'n gweithio neu'n byw yn y lleoliad (e.e. aelod o'r teulu).

- Plentyn wedi gallu gadael y lleoliad neu fod ar goll am gyfnod o amser.
- Person anawdurdodedig wedi gallu cael mynediad i'r fangre.